Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Cymdeithas heb arian parod?

## P-6-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Mehefin 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deisebau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDeisebau**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Cymdeithas heb arian parod?

## P-6-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Mehefin 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jack Sargeant AS**
Llafur Cymru



**Rhys ab Owen AS**
Aelod Annibynnol Plaid Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

---

## Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**1. Y ddeiseb** ..... **7**

**2. Cefndir** ..... **8**

Senedd y DU ..... 8

Camau gweithredu gan Senedd Cymru ..... 9

Access to Cash Review ..... 10

**3. Y ddeiseb a gwaith y Pwyllgor** ..... **11**

**4. Realiti 'cerdyn yn unig'** ..... **13**

**5. Cymhlethdodau amrywiol** ..... **16**

**6. Mynediad cyfartal** ..... **18**

**7. Her i fusnesau** ..... **20**

**8. Atebion** ..... **22**

**9. Argymhellion** ..... **24**

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** ..... **25**

**Atodiad 2: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** ..... **26**

# Rhagair y Cadeirydd

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, rydym wedi clywed am y rhwystrau mae pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu. Mae prynu dillad neu frechdan mewn caffi yn weithgareddau bob dydd y mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu cymryd yn ganiatäol. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a glywsom fod y gweithredoedd syml hyn yn mynd yn anoddach i bobl ag anableddau dysgu oherwydd bod busnesau'n dechrau gweithredu heb arian parod.

Rydym wedi gwrando ar bobl ag anableddau dysgu a'r rhai sy'n eu cefnogi. Gwnaethant rannu profiadau gofidus a dryslyd o beidio â gallu talu am wasanaeth neu nwyddau gan nad oedd y siop, y caffi neu'r theatr yn derbyn arian parod.

Yn anffodus, mae'n brofiad sy'n gynyddol gyffredin wrth i ni weld cynnydd parhaus yn y defnydd o daliadau digidol. Er bod y galw gan ddefnyddwyr yn cyfrannu at hyn, mae'n ymddangos nad yw llawer o fusnesau bellach yn derbyn arian parod oherwydd y costau cynyddol a'r rhwystrau i ddefnyddio cyfleusterau bancio lleol. Fel cefnogwr cryf o rwydwaith Bancio Cymunedol Cymru gyfan, mae'n amlwg i mi fod bancio cymunedol yn rhan o'r ateb. Fodd bynnag, mae'n ddarlun cymhleth a bydd angen ymagwedd amlochrog i sicrhau nad ydym yn gadael aelodau agored i niwed o'n cymdeithas ar ôl.

Roedd pawb a roddodd dystiolaeth yn cydnabod yr angen i weithredu, er mwyn sicrhau y gall pobl ag anabledd dysgu gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Dylai pawb allu dewis ble maent yn gwario eu harian, ac ni ddylid peri iddynt deimlo'n lletchwith neu wedi'u cywilyddio pan wrthodir eu taliad arian parod.

Mae ein hadroddiad, a'r argymhellion a wnawn, yn galw am newid, gwell ymwybyddiaeth ac addysg a'r angen i archwilio atebion. Rydym yn nodi'n glir bod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol. Rhaid i bobl ag anabledd dysgu gael eu clywed a rhaid gwrando arnynt. Rhaid hefyd eu trin ag urddas a pharch a rhaid eu galluogi i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu profiadau yn agored gyda ni ac i'r rhai sy'n ymgyrchu'n frwd i wella bywydau pobl. Er mwyn cefnogi Wythnos Anabledd Dysgu 2024, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrando arnoch, i gydnabod eich profiadau ac i weithredu.



**Jack Sargeant AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

# 1. Y ddeiseb

Mae'r adroddiad hwn yn deillio o ddeiseb gan Mencap Cymru yn galw ar i Lywodraeth Cymru weithredu i sicrhau y gall oedolion ag anableddau dysgu ac oedolion agored i niwed eraill barhau i dalu am nwyddau a gwasanaethau ag arian parod.

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod.

Mae Mencap Cymru yn pryderu y gall y newid tuag at gymdeithas heb arian parod wneud cam â phobl anabl na allant ddefnyddio dulliau talu electronig. Yn ystod y misoedd diwethaf, nid yw rhai pobl ag anableddau dysgu wedi gallu talu am nwyddau a gwasanaethau ac maent wedi gorfod gadael busnesau'n waglaw. Ni chaniateir i weithwyr cymorth ddefnyddio eu cardiau eu hunain, ac ni ddylid disgwyl iddynt wneud hynny. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt fynediad cyfartal at nwyddau a gwasanaethau, gyda llawer o fusnesau a sefydliadau'n troi at ddulliau talu electronig.

# 2. Cefndir

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun ynghylch defnyddio arian parod yn ein bywydau bob dydd, gan dynnu ar dystiolaeth bresennol a gwaith blaenorol Pwyllgor y Senedd.

**1.** Mae deiseb Mencap Cymru yn tynnu sylw at bryderon ynghylch y symudiad tuag at gymdeithas heb arian parod a sut mae hyn yn effeithio'n negyddol ar fywydau pobl ag anabledd dysgu, gan eu hatal rhag prynu nwyddau a gwasanaethau.

**2.** Canfu adroddiad yn 2022 gan UK Finance, y gymdeithas fasnach ar gyfer y diwydiant bancio a chyllid, fod bron i 40 y cant o bobl yn defnyddio arian parod i dalu am rywbeth o leiaf unwaith yr wythnos, gydag 11 y cant yn dweud bod yn well ganddynt ddefnyddio arian parod a dim ond tri y cant yn dweud nad oeddent yn defnyddio arian parod o gwbl. Canfu'r adroddiad hefyd fod traean o'r bobl a oedd wedi defnyddio arian parod yn y flwyddyn ddiwethaf yn dweud eu bod wedi cael profiad o daliad arian parod yn cael ei wrthod.[1]

### Senedd y DU

**3.** Ar 20 Mawrth 2023, cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin ddadl ar ddeiseb sy'n galw ar i Lywodraeth y DU ei gwneud yn ofynnol i bob busnes a gwasanaeth cyhoeddus dderbyn taliadau arian parod. Nododd ymateb y Llywodraeth nad yw'n bwriadu gorfodi busnesau i dderbyn arian parod. Ond mae'r ymateb hefyd yn nodi bod deddfwriaeth wedi'i chyflwyno yn ddiweddar i ddiogelu mynediad at arian parod fel rhan o'r Bil Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cefnogi sefydliadau, gan gynnwys busnesau lleol, fel y gallant barhau i dderbyn arian parod drwy sicrhau bod ganddynt fynediad rhesymol at gyfleusterau adneuo.[2]

[1] UK Finance, Blog on How consumers in the UK use cash – a snapshot, 2022 www.ukfinance.org.uk/news-and-insight/blog/how-consumers-in-uk-use-cash-snapshot
[2] UK Government and Parliament petition: Require all businesses and public services to accept cash payments https://petition.parliament.uk/petitions/622284

## Camau gweithredu gan Senedd Cymru

**4.** Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd ei adroddiad “Mynediad at Fancio”. Canfu’r Pwyllgor dystiolaeth ysgubol o effaith negyddol cau banciau a’r gostyngiad yn nifer y peiriannau ATM am ddim yng Nghymru, a lleisiodd bryder *“yn sicr nid yw Cymru yn barod i roi’r gorau i ddefnyddio arian”*.[3]

**5.** Mewn perthynas â mynediad at arian parod, dyma ddywedodd LINK, y sefydliad nid-er-elw sy’n rheoli’r rhwydwaith ATM LINK, wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: er bod y defnydd o arian parod wedi gostwng yn gyflym yn ystod y degawd diwethaf a bod disgwyl i hyn barhau, fod mynediad am ddim at arian parod i ddefnyddwyr yn “wasanaeth cenedlaethol hanfodol.”[4]

**6.** Rhybuddiodd y sefydliad defnyddwyr Which? y gallai cymunedau Cymru golli’r dewis i ddefnyddio arian parod cyn eu bod yn barod, ac y gall fod yn gymhleth ailgyflwyno arian parod os bydd yn diflannu.

**7.** Mae’r gostyngiad yn y defnydd o arian parod hefyd yn effeithio ar sut mae busnesau’n dewis derbyn taliadau, gan fod costau trafod arian parod a derbyn taliadau electronig yn newid dros amser. Nododd y Pwyllgor mai “mater penodol yma yw’r gallu i fusnesau adneuo derbyniadau arian parod, a chost gysylltiedig hynny”.[5]

**8.** Gwnaeth y Pwyllgor sawl argymhelliad, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall hybiau rhanbarthol, a chydweithredu a chydweithio rhwng gwahanol asiantaethau, wella’r mynediad at arian parod yng nghymunedau Cymru, a derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Ar ôl derbyn tystiolaeth ddiymwad o’r effaith mae cau canghennau yn ei chael ar bobl hŷn a phobl anabl, a’r problemau o ran allgáu digidol i’r rhai sydd eisoes dan anfantais, argymhellodd y Pwyllgor y “dylai cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol flaenoriaethu a) cynnal cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant sgiliau digidol sy’n bodoli eisoes, b) ymgynghori â rhanddeiliaid ar sut i fynd i’r afael ymhellach â’r rhwystrau i bobl hŷn a phobl sy’n agored i niwed gael mynediad diogel at fancio ar-lein, ac c) darparu cymorth ychwanegol i athrawon

[3] Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Mynediad at Fancio https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25058
[4] Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Mynediad at Fancio https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25058
[5] Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Mynediad at Fancio https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25058

ddarparu addysg ariannol o fewn y cwricwlwm ysgolion."[6] Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

### Access to Cash Review

**9.** Sefydlwyd yr Access to Cash Review annibynnol i ystyried gofynion defnyddwyr am arian parod dros y pum i bymtheng mlynedd nesaf. Roedd hyn mewn ymateb i'r gostyngiad cyflym yn y defnydd o arian parod, a phryderon cynyddol ynghylch a ydym yn gadael pobl ar ôl na allant ddefnyddio neu gael mynediad at arian parod mewn cymdeithas gynyddol ddigidol. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith y byddai tua 17% o boblogaeth y DU yn ei chael hi'n anodd ymdopi mewn cymdeithas heb arian parod, gan bwysleisio bod tlodi yn ffactor sylweddol yn nibyniaeth pobl ar arian parod.[7]

**10.** Ymgynghorodd yr Adolygiad yn eang â thros 120 o sefydliadau a miloedd o ddefnyddwyr unigol. Daethant i'r casgliad bod angen i bawb fod â dull diogel a dibynadwy o dalu sy'n diwallu eu hanghenion. Roedd eu hargymhellion yn cynnwys pwysigrwydd cymryd camau i sicrhau bod arian parod yn dal i gael ei dderbyn yn eang ac yn galw am fynediad wedi'i warantu at arian parod i bawb.

[6] Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Mynediad at Fancio
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25058
[7] Access to Cash Review – Final Report, 2019 Executive Summary
https://www.accesstocash.org.uk/media/1087/final-report-final-web.pdf

# 3. Y ddeiseb a gwaith y Pwyllgor

## Gwnaethom ystyried y ddeiseb a chytuno bod angen ymchwilio ymhellach i ddeall yn well y materion sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu wrth wneud taliadau.

**11.** Casglodd y ddeiseb gan Mencap Cymru 1,926 o lofnodion ar-lein a 578 o lofnodion ar bapur, gan wneud cyfanswm o 2,504 o lofnodion.

**12.** Gwnaethom ystyried ymateb Llywodraeth Cymru a gohebiaeth gan Mencap Cymru yn ystod ein hystyriaeth gychwynnol o'r ddeiseb hon ar 5 Mehefin 2023.

**13.** Mae ymateb y cyn-Weinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip (y Gweinidog) yn cydnabod bod hwn yn fater cymhleth sy'n cael ei waethygu gan y banciau'n cau sy'n cyflwyno "*heriau gwirioneddol i lawer o fanwerthwyr, yn enwedig busnesau bach, pan fydd angen adneuo arian parod yn lleol*".[8]

**14.** Gan gefnogi'r egwyddor bwysig fod busnesau yn derbyn arian parod, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dywed y Gweinidog nad yw hwn yn fater datganoledig a bod penderfyniadau ynghylch a ddylid derbyn taliadau arian parod yn seiliedig ar ystyriaethau masnachol. Fodd bynnag, cyfeiriodd at ymgysylltiad arfaethedig â rhanddeiliaid i'w hannog i gadw systemau arian parod ac at waith y Tasglu Hawliau Anabledd yn nodi materion a rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl.

**15.** Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi y gallai fod angen ystyried agweddau yn ymwneud â chydraddoldeb:

> *Mae taliadau digidol yn unig, heb opsiwn i dalu ag arian parod yn codi cwestiynau o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn effeithio ar unigolion sy'n derbyn ac yn darparu gwasanaethau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gallai mynnu taliadau digidol wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae swyddogion yn bwriadu ymchwilio'n fanylach i hyn.*[9]

[8] Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 15 Mai 2023
[9] Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 15 Mai 2023

**16.** Mae Mencap Cymru yn mynegi pryder bod perygl o allgáu pobl ag anabledd dysgu yn barhaol o fod â'r annibyniaeth, y rheolaeth a'r dewis i dalu am nwyddau a gwasanaethau drostynt hwy eu hunain. Nodwyd meysydd allweddol lle gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau, gan gynnwys:

- sicrhau bod pob lleoliad a sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus yn derbyn taliadau arian parod;
- dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i ddatblygu ffyrdd y gall oedolion agored i niwed gyfranogi wrth brynu nwyddau a gwasanaethau mewn cymdeithas heb arian parod;
- datblygu ffyrdd y gall pobl ag anabledd dysgu ac oedolion agored i niwed eraill ddefnyddio dulliau talu heb arian parod os nad oes ganddynt y gallu i fod â chyfrifon banc;
- defnyddio arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru o wasanaethau rheoleiddiedig i asesu sut mae darparwyr gofal yn galluogi pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at eu harian, meithrin eu gallu i reoli eu harian eu hunain ac archwilio ffyrdd y gallant gyfranogi mewn cymdeithas heb arian parod;
- ystyried sut mae cynyddu trafodion heb arian parod ac allgáu llawer o ddinasyddion Cymru ymhellach yn cyferbynnu ag uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.[10]

**17.** Yn dilyn hynny, gwnaethom benderfynu cymryd tystiolaeth ar y pwnc hwn i ddeall ymhellach yr heriau a'r materion sy'n wynebu oedolion agored i niwed a busnesau ynghylch y gostyngiad o ran derbyn taliadau arian parod.

**18.** Cynhaliwyd ein sesiynau tystiolaeth ar 9 Hydref 2023 (Paneli 1 a 2) a 23 Hydref 2023 (Panel 3). Mae rhestr o'r cyfranogwyr yn Atodiad A. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth ac a rannodd eu profiadau, gan helpu i lywio ein trafodaeth a'n casgliadau.

---

[10] Llythyr at y Cadeirydd gan Mencap Cymru, 30 Mai 2023

# 4. Realiti 'cerdyn yn unig'

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom gan unigolion a'u teuluoedd am sut y maent yn cael eu hallgáu rhag cyfranogi mewn bywyd bob dydd. Cadarnhaodd sefydliadau cymorth a busnesau fod hwn yn brofiad cyfarwydd i lawer o bobl agored i niwed.

**19.** Clywsom sut mae pobl ag anableddau dysgu yn teimlo cywilydd pan gânt eu gwrthod ar bwynt talu wrth geisio prynu cylchgrawn, wrth gael coffi mewn caffi neu pan fyddant eisiau mynd i nofio - gan nad yw taliadau arian parod yn cael eu derbyn mwyach.

**20.** Rhannodd Mencap Cymru, sy'n darparu cymorth i dros 170 o bobl ag anabledd dysgu mewn gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ledled Cymru, eu pryder bod rhai oedolion ag anableddau dysgu yn cael eu hallgáu fwyfwy o gymdeithas.

**21.** Dywedodd Wayne Crocker, Cyfarwyddwr Mencap Cymru, fod profiad un person sy'n cael ei gefnogi gan wasanaethau Mencap Cymru yn Sir Gâr, yn tynnu sylw at y realiti llym i bobl na allant ddefnyddio cardiau banc.

> *I was chatting to somebody we supported who was talking about the fact that he'd been given birthday money from his family and had decided to go to a rugby club locally to buy a rugby shirt, and had gone there with his support staff, had known what sort of shirt he wanted to buy, had gone into that venue and was told that it was cashless. So, essentially, he could only purchase a shirt if he had a debit or credit card. He didn't have either of those.*[11]

**22.** Nid yw hon yn enghraifft unigryw, fel y clywsom gan Steven McGee a'i fam Janet Jones.

> *Steven is very sociable. He likes going to coffee shops, or maybe a fast food place, and he likes to pay with his money. Now, I've said earlier that the first time we ever experienced it was here in Cardiff, where we went in, we ordered our coffees, and we were told, 'It's card only.'.... We've experienced it*

[11] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 8

*at home as well. We have two or maybe three cafes where we live that are only card payments as well. It takes that social aspect away from somebody like Steven.*[12]

**23.** Mae'r ymadrodd 'cerdyn yn unig' yn atseinio gyda'r diffyg dewis a rheolaeth i bobl sy'n defnyddio arian parod. Clywsom fod Steven wedi cael siom enfawr pan nad oedd modd iddo ddefnyddio'r peiriant gwerthu bwyd yn y gwesty. Yn ystod ymweliad blaenorol, roedd y peiriant wedi derbyn arian parod ond roedd bellach wedi newid i fod yn beiriant 'cerdyn yn unig', a oedd yn golygu na allai Steven brynu unrhyw beth. Dywedodd ei fam fod y pethau hyn yn bethau bach i ni, ond yn bethau enfawr i Steven.[13]

**24.** Rhoddodd Dot Gallagher, Cadeirydd Mencap Môn, enghraifft o ddyn ifanc a oedd am brynu cylchgrawn beic modur am £2.60 ac a aeth mor ofidus pan ddywedwyd wrtho na allai ei brynu fel y bu'n rhaid galw'r heddlu i'w hebrwng oddi ar y safle.[14]

**25.** Nododd arolwg a gynhaliwyd gan Mencap Cymru fod y rhain yn brofiadau cyffredin i bobl ag anabledd dysgu na allant ddefnyddio dulliau taliadau digidol. Pwysleisiodd yr arolwg rai o'r heriau a'r rhwystrau a wynebwyd, ar ffurf straeon pobl am sut nad oedd modd iddynt brynu nwyddau neu wasanaethau yn eu cymunedau eu hunain. Er syndod, digwyddodd hyn hefyd mewn ystod o wasanaethau cyhoeddus neu sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys lleoliadau theatr, celfyddydau a chwaraeon, gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Canolfan Celfyddydau Pontio, sawl canolfan hamdden; Pwll Nofio Rhyngwladol Caerdydd a Pharc Gwyliau Bluestone.[15]

**26.** Gwnaeth Darren Joyce, Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Gyfeillgar, elusen sy'n helpu pobl i reoli eu harian, atgyfnerthu'r teimladau o wrthodiad a siom a brofir gan unigolion sy'n mynd i dalu am rywbeth cyn sylweddoli na allant dalu amdano ac nad ydynt yn gwybod sut i ymateb o gwbl. Disgrifiodd sut y bydd rhai pobl wedi bod yn cynilo ac yn bwriadu prynu rhodd neu rywbeth y maent wedi bod ei eisiau ers amser, ac mae'n dweud bod cael eu gwrthod ar sail y polisi dim arian parod yn cael effaith mor niweidiol, yn enwedig ar annibyniaeth a llesiant meddyliol rhywun.[16]

**27.** Mae Trudy Davies, sy'n rhedeg siop yn Llanidloes, yn credu y gall busnesau cerdyn yn unig gael effaith negyddol. Dywedodd ein bod yn tueddu i anghofio'r

[12] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 13
[13] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 50
[14] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 29
[15] Llythyr at y Cadeirydd gan Mencap Cymru, 30 Mai 2023
[16] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 23 Hydref 2023, para 82

ffaith bod yna bobl hŷn a phobl agored i niwed, a bod ganddi rai cwsmeriaid sydd ag anghenion arbennig, a'u bod yn dod i mewn, ac nad ydynt yn deall cardiau a bancio, a'u bod yn hoffi defnyddio arian parod.[17]

[17] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 105

# 5. Cymhlethdodau amrywiol

Mae llawer o bethau sy'n cyfrannu at gyfyngu ar allu pobl agored i niwed i dalu am wasanaethau neu nwyddau. Clywsom am heriau bancio, diffyg ymwybyddiaeth o effeithiau niweidiol gwrthod taliadau arian parod a'r angen am ateb effeithiol i staff gofal a chymorth hyrwyddo annibyniaeth.

**28.** Clywsom faint o oedolion ag anabledd dysgu sy'n gallu cael anawsterau wrth geisio defnyddio cyfleusterau bancio os bernir eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin yn ariannol neu os nad oes ganddynt y galluedd i reoli cyfrif.[18]

**29.** Dywedodd Dot Gallagher wrthym nad yw un o'i meibion yn deall y cysyniad o daliadau digidol ac y byddai'n eich reslo i'r llawr pe baech yn ceisio cymryd papur £20 oddi arno, ond y byddai'n hapus i roi ei gerdyn i chi a dweud ei rif PIN wrthych gan nad ydynt yn golygu fawr ddim iddo.[19]

**30.** Mae'r Ymddiriedolaeth Gyfeillgar yn asesu galluedd meddyliol rhywun i reoli ei gyllid ac esboniodd fod gallu rhywun i reoli arian ffisegol, am ei fod yn trosglwyddo rhywbeth diriaethol ac yn derbyn nwyddau amdano, yn newid gyda thrafodion digidol. Mae Darren Joyce yn pwysleisio bod hyn yn aml yn golygu bod angen i'w hymyriadau fod yn fwy 'ymwthiol', gan arwain at lai o annibyniaeth i'r unigolyn.[20]

**31.** Mae heriau hefyd o ran cefnogi oedolion sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl neu dai byw â chymorth, lle mai'r awdurdod lleol fydd y penodai ariannol yn aml pan ystyrir nad oes gan berson y galluedd i reoli cyfrif banc, neu ei fod yn wynebu risg o gael ei gam-drin yn ariannol. Yn aml, bydd unigolyn yn cael mynediad at arian drwy beiriant arian parod ond ni fydd ganddo gerdyn debyd neu gredyd. Pan mai 'cerdyn yn unig' yw'r unig opsiwn talu, mae hyn yn peri anawsterau i unigolion a'u gweithwyr cymorth, gan nad yw'n briodol i weithwyr dalu gyda'u cerdyn debyd neu gredyd eu hunain.[21]

[18] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 27
[19] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 22
[20] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 23 Hydref 2023, para 83
[21] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 27

**32.** Clywsom am y rhwystrau di-ri sy'n gallu atal person rhag cael mynediad at ei gyfrif banc a'i reoli. Gyda changhennau lleol yn cau, rhaid i bobl deithio'n bell i ymweld â'u banc neu orfod delio â'r banc dros y ffôn. Mae hyn wedi bod yn heriol iawn i fab Dot y mae ei gangen agosaf dros 50 milltir i ffwrdd ac nid yw'r system bancio dros y ffôn yn cydnabod ei anghenion, a byddant yn dod â'r alwad i ben os clywant Dot yn ei helpu gyda'i fanylion diogelwch, na all ef eu cofio.[22]

**33.** Mae'r dystiolaeth yn dangos y diffyg hyblygrwydd i dderbyn taliadau arian parod. Er bod y diffyg dealltwriaeth na all rhai pobl wneud taliadau digidol yn peri pryder, roedd cydnabyddiaeth nad oes gan lawer o fusnesau y cyfleusterau i dderbyn arian parod mwyach ac nad oes gan eu gweithwyr unrhyw ddewis ond gweithredu o fewn polisi'r cwmni.[23]

**34.** Mae Mencap Cymru hefyd yn bryderus fod canolfannau dydd yn cau, gyda sawl awdurdod lleol bellach yn canolbwyntio ar gefnogi pobl yn y gymuned. Fodd bynnag, yn ôl tystiolaeth y mae Mencap Cymru wedi'i gweld a'i chlywed, yn aml ni all pobl gael mynediad at wasanaethau na chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned pan mai dim ond taliadau digidol sy'n cael eu derbyn.

[22] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 26
[23] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 32

# 6. Mynediad cyfartal

Er bod taliadau digidol yn cynnig manteision i'r mwyafrif, nid yw'n opsiwn i bawb yn ein cymdeithas. Clywsom sut mae methu â gwneud taliadau digidol yn dwyn ymaith ddewisiadau unigolion ac yn eu hallgáu rhag cymryd rhan mewn bywyd bob dydd.

**35.** Pwysleisiodd Mencap Cymru nad yw sicrhau mynediad wedi'i gyfyngu i sicrhau bod lleoliad yn hygyrch yn ffisegol. Dylai hefyd ymwneud â galluogi unigolion i gymryd rhan neu brynu nwyddau. Boed yn baned mewn caffi neu'n rhaglen yn y theatr, mae gwneud y rhain yn daliadau digidol yn unig yn cyfyngu neu'n atal mynediad at y gwasanaeth neu'r lleoliad hwnnw.[24]

**36.** Fel yr amlygwyd gan Wayne Crocker, mae sicrhau mynediad a chyfranogiad yn golygu llawer mwy na sicrhau mynediad ffisegol i adeilad neu doiled:

> *As a society we would expect that at a minimum the above venues have accessible toilet facilities for disabled customers, otherwise they breach the Equality Act. A venue without these facilities is exclusionary and impact the right of disabled people to participate. Not accepting cash has the same impact on the ability of a disabled person to access goods or services. We have heard from several people who have been unable to participate in cultural events, leisure facilities, buy refreshments and other items because they have a learning disability, cannot access a bank account and are unable to pay with cash.*[25]

**37.** Mae rhai pobl agored i niwed yng Nghymru yn cael eu hallgáu oherwydd y duedd gynyddol tuag at drafodion heb arian parod. Mae eu hopsiynau, eu hannibyniaeth, eu dewis a'u rheolaeth yn cael eu herydu, er gwaethaf gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.

[24] Llythyr at y Cadeirydd gan Mencap Cymru, 30 Mai 2023
[25] Llythyr at y Cadeirydd gan Mencap Cymru, 30 Mai 2023

**38.** Cydnabu'r Gweinidog y gallai'r sefyllfa bresennol fod yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl[26] ac, er mai ychydig o reolaeth neu ddylanwad sydd gan Lywodraeth Cymru dros fusnes preifat, mae'n destun pryder nad yw'r sector cyhoeddus a sefydliadau a ariennir gan y llywodraeth yn sicrhau mynediad i bawb.

**39.** Rhannodd Mencap Cymru fod sefydliadau eraill sy'n rhan o gonsortiwm anabledd dysgu Cymru, gan gynnwys Anabledd Dysgu Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru, fforwm rhieni a gofalwyr Cymru gyfan a Cymorth hefyd wedi mynegi pryderon tebyg am effaith negyddol trafodion heb arian parod ar unigolion.

[26] Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 15 Mai 2023

# 7. Her i fusnesau

Mae llawer o rwystrau i fusnesau a sefydliadau eu goresgyn i reoli taliadau arian parod a thaliadau digidol yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys y costau cysylltiedig, gallu cael mynediad at gyfleusterau bancio lleol a'r angen am addysg ar yr effaith negyddol y gall gwrthod taliadau arian parod ei chael ar lesiant unigolyn.

**40.** Clywsom am y pwysau gwirioneddol sy'n wynebu busnesau i ddarparu'r opsiynau o ran taliadau arian parod a thaliadau digidol.

**41.** Esboniodd Ben Cottam, Pennaeth Cymru y Ffederasiwn Busnesau Bach, fod nifer o resymau sy'n dylanwadu ar y gostyngiad yn nifer y busnesau sy'n derbyn arian parod. Mae'r galw gan ddefnyddwyr am gyfleustra taliadau digidol yn dylanwadu ar ymateb y busnes, ynghyd â heriau logistaidd a chost cael mynediad at arian parod a'i adneuo ar ôl i ganghennau banc lleol gau. Mae costau deuol gweinyddu taliadau digidol a chostau adneuo taliadau arian parod hefyd yn cyfrannu at y penderfyniad i newid i ateb digidol yn unig.[27]

**42.** Rhannodd Ben Cottam y bu gostyngiad o 21 y cant yn nifer y peiriannau ATM sydd ar gael yng Nghymru rhwng 2018 a 2020, a bod llawer o'r cyfleusterau sy'n weddill yn rhai y mae'n rhaid talu amdanynt, sy'n codi ffi fesul trafodiad, sy'n ddatgymhelliad i ddefnyddio arian parod.[28]

**43.** Mae gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru enghreifftiau di-ri o aelodau sy'n gorfod teithio cryn bellteroedd i adneuo arian parod. Dywed fod hynny'n achosi problemau, yn enwedig o ran diogelwch pobl sy'n teithio pellter sylweddol gyda symiau sylweddol o arian yn eu car.[29]

**44.** Pwysleisiodd Trudy Davies, sy'n rhedeg siop yn Llanidloes, yr her a wynebir heb gyfleusterau bancio lleol, yn enwedig mewn cymuned wledig. Er y gall fod peiriannau codi arian parod, nid ydynt bob amser yn gweithio neu efallai nad oes

[27] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 73
[28] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 76
[29] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 78

ganddynt arian parod ar gael. Mae'r diffyg mynediad at arian parod wedyn yn effeithio ar fusnesau bach a stondinau marchnad lleol nad oes ganddynt beiriannau talu digidol.[30]

**45.** Mae cymunedau gwledig yn wynebu anawsterau eraill hefyd, megis mynediad di-wifr ysbeidiol i wneud a derbyn taliadau digidol, a all arwain at fusnes yn methu â gwneud trafodion. Esboniodd Trudy Davies y gallech chi golli hanner diwrnod o fusnes cyn i chi ddatrys y broblem a chael eich peiriannau i weithio eto.[31]

**46.** Clywsom dystiolaeth fod yna bobl yng Nghymru na allant ddefnyddio dulliau talu digidol neu eu bod yn dewis peidio â gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu, pobl nad oes ganddynt gyfrif banc neu'r rhai sy'n defnyddio arian parod i reoli eu cyllideb yn well er mwyn osgoi mynd i ddyled.

**47.** Yn ei siop, mae Trudy Davies yn croesawu taliadau arian parod a thaliadau digidol mewn ymateb i anghenion ei chwsmeriaid. Mae'n cydnabod mai arian parod yw'r unig opsiwn i rai cwsmeriaid ac mai dim ond drwy ddefnyddio arian parod y gall eraill gyllidebu'n effeithiol. Dywedodd, o ystyried costau byw a phopeth arall, a'r ffaith ei bod yn gymuned dlotach, fod angen gofalu am y bobl sydd angen gallu defnyddio arian parod.[32]

**48.** Mae siopau a busnesau lleol yn gwneud cyfraniad allweddol at gefnogi eu cymuned. Wrth fynegi ei phryderon am y symudiad tuag at gymdeithas heb arian, dywedodd Trudy:

… *we tend to forget the fact that there are older people and more vulnerable people. And I have a few customers that have special needs—they come in, and they just don't understand cards and the banking, and they just like cash.*[33]

[30] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 81
[31] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 81
[32] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 93
[33] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 105

# 8. Atebion

Cyflwynwyd rhai atebion ymarferol a diddorol yn ystod yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys pwysigrwydd bod yn glir pa wasanaethau sy'n derbyn arian parod, dewisiadau amgen i gardiau debyd neu gredyd a gwell addysg ac ymwybyddiaeth i bawb.

**49.** Clywsom fod cyfathrebu effeithiol a chlir ynghylch a yw busnes neu sefydliad yn derbyn taliad arian parod yn hanfodol. Gallai arddangos arwydd 'Rydym / Nid ydym yn derbyn arian parod', yn debyg i'r arwyddion sgorio hylendid bwyd, mewn lle amlwg helpu i leddfu rhywfaint o'r pryder a'r trallod a brofir pan na dderbynnir taliadau arian parod mewn pwynt talu.

**50.** Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrthym am y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gyda'r sefydliad defnyddwyr Which? a'u haddewid o ran arian parod, sy'n ddatganiad rhagweithiol bod busnes yn derbyn arian parod.[34]

**51.** Clywsom pa mor bwysig yw addysgu busnesau a gwasanaethau am sut y gellir gwthio unigolion i'r cyrion pan na allant ddefnyddio dulliau talu digidol. Y gobaith yw y byddai hyn yn arwain at well dealltwriaeth o'r trallod a all godi yn sgil gwrthod trafodion arian parod.

**52.** Dadleuodd Darren Joyce o'r Ymddiriedolaeth Gyfeillgar yn gryf dros yr angen i fyfyrio ar y ffordd rydym yn addysgu pobl am arian, a'r angen i symud i ffwrdd o ddysgu am drafodion ffisegol.[35]

**53.** Pwysleisiwyd yr angen i archwilio gwahanol ddulliau talu nad oes angen cerdyn debyd neu gredyd ar eu cyfer. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau y gall gweithwyr gofal a chymorth hyrwyddo annibyniaeth pobl, gan sicrhau bod gan bobl ddewis a rheolaeth ynghylch sut a phryd i wario eu harian.

**54.** Mae Mencap Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried defnyddio arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru o wasanaethau rheoleiddiedig i asesu sut mae darparwyr gofal yn galluogi pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at eu

[34] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 105
[35] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 23 Hydref 2023, para 82

harian, meithrin eu galluedd i reoli eu harian eu hunain ac archwilio ffyrdd y gallant gymryd rhan mewn cymdeithas heb arian parod.[36]

**55.** Er mwyn hwyluso ac annog busnesau, yn enwedig busnesau llai, i barhau i dderbyn trafodion arian parod, mae angen gwell mynediad at gyfleusterau bancio i dynnu ac adneuo arian parod. Croesawodd y Ffederasiwn Busnesau Bach ddatblygiad hybiau bancio, megis yn y Bont-faen, Bro Morgannwg.[37]

[36] Llythyr at y Cadeirydd gan Mencap Cymru, 30 Mai 2023
[37] Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 09 Hydref 2023, para 105

# 9. Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ofynnol i bob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus dderbyn taliadau arian parod.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd gan rai sefydliadau gyfleusterau mwyach i dderbyn arian parod neu adneuo arian parod yn lleol, ac felly bydd angen cymorth ac arweiniad arnynt.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil yn y maes hwn i archwilio'n llawn y cymhlethdodau a'r heriau sy'n wynebu pobl nad ydynt yn defnyddio taliadau digidol, eu teuluoedd, gweithwyr cymorth, darparwyr gofal preswyl, busnesau preifat a sefydliadau sector cyhoeddus.

Dylai hyn ganolbwyntio hefyd ar archwilio atebion i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i fod yn ddinasyddion gweithgar sy'n gallu byw mor annibynnol â phosibl a chael yr un cyfleoedd â'r rhai sy'n defnyddio dulliau talu digidol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu, sefydliadau anabledd dysgu, sefydliadau pobl hŷn, sefydliadau gofal a chymorth, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector a'r gymuned fusnes i ddatblygu a chyflwyno ymgyrch i addysgu a gwella dealltwriaeth o sut y bydd cymdeithas heb arian parod yn allgáu rhai pobl.

Gellid targedu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd at ddarparwyr gwasanaethau a busnesau a datblygu ymagweddau cadarnhaol, megis arwydd clir sy'n nodi a yw'r lleoliad neu'r busnes yn derbyn arian parod ai peidio. Byddai hyn yn mynd beth o'r ffordd tuag at leihau ac osgoi rhai o'r profiadau gofidus i bobl sy'n defnyddio arian parod yn unig.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i ddatblygu ffyrdd y gall oedolion agored i niwed gyfranogi wrth brynu nwyddau a gwasanaethau mewn cymdeithas heb arian parod.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad at gyfleusterau bancio yn y gymuned er mwyn cefnogi busnesau i barhau i ddefnyddio ac adneuo arian parod a chefnogi anghenion bancio pobl ag anableddau dysgu.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **09 Hydref 2023** | **Wayne Crocker,**<br>Mencap Cymru<br>**Steven McGee,**<br>yn rhannu ei brofiad<br>**Janet Jones**<br>Mam<br>**Dot Gallagher,**<br>Mencap Môn<br>**Ben Cottam,**<br>Ffederasiwn Busnesau Bach<br>**Trudy Davies,**<br>Woosnam & Davies News |
| **23 Hydref 2023** | **Darren Joyce,**<br>Yr Ymddiriedolaeth Gyfeillgar |

# Atodiad 2: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip | 15 Mai 2023 |
| Llythyr at y Cadeirydd gan Mencap Cymru | 30 Mai 2023 |